**PAPURAU BUSNES**

**RHAN 2 – ADRAN H**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MERCHER, 24 TACHWEDD 1999

**Cychwynnodd y cyfarfod am 2.03pm. Croesawyd Tom McCabe, Gweinidog Seneddol, Senedd yr Alban gan y Llywydd.**

**Ethol Cadeirydd newydd y Pwyllgor Safonau**
Cynnig bod y Cynulliad yn pendefynu penodi David Melding (Ceidwadwyr) yn lle Nicholas Bourne (Ceidwadwyr) ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac ethol David Melding yn Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

Cafwyd pleidlais:

O Blaid 41
Ymatal 0
Yn Erbyn 0
Cyfanswm 41

Etholwyd David Meldyn drwy hynny yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

**2.06pm**
**Cwestiynau i Rhodri Morgan – Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd**
Gofynnwyd y 3 chwestiwn cyntaf.

**2.26pm**
**Cwestiynau i Edwina Hart – Yr Ysgrifennydd Cyllid**
Gofynnwyd y 6 chwestiwn cyntaf.

**2.38pm Mater o Drefn**

Cododd **Nick Bourne** fater o drefn mewn perthynas â Rheolau Sefydlog 6.26 – 6.31, ond yn benodol mewn perthynas â 6.29 ynghylch yr arfer o basio cwestiynau llafar o un Ysgrifennydd y Cynulliad i'r llall ar gyfer eu hateb. Cyfeiriodd yn benodol at nifer o gwestiynau a gyflwynwyd i'w hateb gan yr Ysgrifennydd Cyllid heddiw a oedd wedi cael eu trosglwyddo. Atebodd yr Ysgrifennydd Cyllid ei bod wedi codi'r mater gyda'r Trefnydd a oedd yn awr yn ystyried crisialu'r cyfarwyddyd.

**2.44pm Mater o Drefn**

Cododd **David Davies** fater o drefn mewn perthynas â Rheol Sefydlog 6.34 ynghylch yr oedi cyn derbyn atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig.

Esboniodd y Llywydd bod y ddau fater wedi'u codi o'r blaen, bod llythyrau wedi'u cyfnewid a'i fod yn ystyried cyhoeddi'r llythyrau hyn ar y Fewnrwyd er mwyn crisialu'r sefyllfa. Dywedodd hefyd bod y Trefnydd yn edrych ar y ddau fater gyda golwg ar baratoi cyfarwyddyd cliriach. Sicrhawyd yr Aelodau yr eid i'r afael â'r mater.

**2.50pm**

Gwnaeth y Llywydd ddatganiad am y problemau technegol ar wefannau'r Fewnrwyd a dywedodd wrth yr Aelodau y bydd dogfennau'n hwyr yn cael eu cyhoeddi.

**2.51pm**
**Dadl ar Chwaraeon**
Cynnig bod y Cynulliad yn cydnabod arwyddocâd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol chwaraeon, cyfraniad chwaraeon at iechyd a lles pobl Cymru ac felly'n cefnogi'r hyn a amlinellir yn nogfen y Cyngor Chwaraeon "Strategaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru".

(Anfonwyd copi o'r strategaeth at bob Aelod o'r Cynulliad gan Gyngor Chwaraeon Cymru ddiwedd mis Mai. Mae'r ddogfen i'w gweld hefyd ar wefan y Cyngor Chwaraeon. Y cyfeiriad yw: www.sports-council-wales.co.uk)

**Dewiswyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Gareth Jones (Conwy);**

Ar ôl y gair Cynulliad yn y llinell gyntaf, rhodder i mewn:

"yn penderfynu cadw a datblygu chwaraeon mewn ysgolion fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn annog plant i gymryd rhan drwy gydol eu hoes, ac"

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru) ;**

Ar ôl y geiriau "Strategaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru" ychwaneger:

"I'r perwyl hwnnw, mae'r Cynulliad hwn yn galw am adeiladu pwll nofio maint Olympaidd yn ardal Canol De Cymru yn lle'r Empire Pool, sydd wedi'i ddymchwel."

**Gwelliant 3 - Christine Humphreys (Gogledd Cymru);**
Ar ddiwedd y cynnig ychwaneger:

"At hyn, y mae'r Cynulliad hwn yn rhannu pryderon Cyngor Chwaraeon Cymru am ddiogelwch plant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, ac yn cynnig y dylid ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru a chyrff chwaraeon eraill am greu cofrestr o hyfforddwyr chwaraeon cydnabyddedig.

**Gwelliant 4 - Christine Humphreys (Gogledd Cymru);**

Ar ddiwedd y cynnig ychwaneger:

- yn croesawu pwyslais y Strategaeth ar gyflwyno i blant yr ystod ehangaf posibl o chwaraeon, ac yn awgrymu y dylai hyn gynnwys pwyslais teg ar chwaraeon ar gyfer unigolion yn ogystal â rhai ar gyfer timau
- yn rhannu pryderon Cyngor Chwaraeon Cymru bod y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yng nghefn gwlad neu ar y dwr yn aml yn gorfod defnyddio eu ceir i deithio i'r fath weithgareddau, ac yn cynnig y dylid edrych ar hyn fel rhan o unrhyw drafodaethau ar ddatblygu trafnidiaeth integredig yng Nghymru
- yn croesawu'r ymroddiad yn y Strategaeth i leihau'r nifer o bobl sy'n cefnu ar chwaraeon trwy gynyddu'r ganran o bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, ond yn cynnig y dylid edrych hefyd ar sut y gellir denu mwy o bobl hyn i gymryd rhan mewn chwaraeon o'r newydd."

Cafwyd pleidlais:

**Gwelliant 1**

O Blaid 47

Ymatal 0

Yn Erbyn 0

Cyfanswm 47

Pasiwyd y gwelliant

**Gwelliant 2**

O Blaid 9
Yn Erbyn 35

Ymatal 3

Cyfanswm 47

Gwrthodwyd y gwelliant

**Gwelliant 3**

O Blaid 35
Yn Erbyn 0
Ymatal 12

Cyfanswm 47

Pasiwyd y gwelliant

**Gwelliant 4**

O Blaid 47
Yn Erbyn 0
Ymatal 0

Cyfanswm 47

Pasiwyd y gwelliant

**Y cynnig, wedi'i wella**

O Blaid 47

Yn Erbyn 0

Ymatal 0
Cyfanswm 47

Pasiwyd y cynnig, wedi'i wella

**4.58pm**
**Penodi Ymgynghorydd Safonau Ymddygiad**
Mae'r Cynulliad yn penderfynu penodi cynghorydd annibynnol i'r Cynulliad ar Safonau Ymddygiad o dan drefniadau i'w gwneud gan y Llywydd, a bydd y trefniadau hynny yn unol ag egwyddorion Cod Ymarfer y Cynulliad ar Benodiadau Cyhoeddus

Cafwyd pleidlais:

O Blaid 35

Yn Erbyn 0

Ymatal 0
Cyfanswm 35

Pasiwyd y cynnig

**5.03**
**Dirprwyo swyddogaethau'r Ddeddf Fabwysiadu (Agweddau Rhyng-wladol) 1999**
Cynnig bod y Cynulliad, drwy weithredu o dan adran 62(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998,

yn dirprwyo'i swyddogaethau o dan Ddeddf Mabwysiadu (Agweddau Rhyng-Wladol) 1999, yn

amodol ar unrhyw benderfyniad arall gan y Cynulliad, i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

Cafwyd pleidlais:

O Blaid 32
Yn Erbyn 0
Ymatal 0

Cyfanswm 32

Pasiwyd y cynnig

**Daeth y sesiwn i ben am 5.13pm**

**********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am <u>1.40pm</u>,**

**ddydd Mawrth, 30 Tachwedd 1999**

**Papurau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ers cyfarfod llawn diwethaf y Cynulliad.**

**Dogfennau a Osodwyd ar 19 Tachwedd 1999**

Adroddiad Blynyddol Cyngor Chwaraeon Cymru 1998/99

**Dogfennau a Osodwyd ar 22 Tachwedd 1999**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau i'r Cynulliad ar Reoliadau'r Rhestr Ardrethu Canolog

(Cymru) 1999

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau i'r Cynulliad ar Reoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol

(Ffïoedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio)

(Cymru) 1999

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau i'r Cynulliad ar Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

(Cyfansoddiad) (Diwygio) 1999

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau i'r Cynulliad ar Reoliadau'r Gwasanaethau Iechyd

Gwladol (Costau Teithio a Dileu Taliadau) (Diwygio) (Cymru) 1999

**Dogfennau a Osodwyd ar 22 Tachwedd 1999**

Rhagolwg y Datganiad Busnes 29/11/99 – 24/3/00

Gorchymyn Sefydlu Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro (Drafft Diwygiedig)

Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (Diddymiad rhif 2)

1999 (Drafft Diwygiedig)

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**